# PAPURAU BUSNES

## DYDD MERCHER, 21 MEHEFIN 2000

## RHAN 1 – ADRAN A

## AGENDA

**Bydd y cyfarfod yn cychwyn am 2pm**

**Cwestiynau i Jane Hutt, Ysgrifennydd y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** (15 munud)
Mae rhestr o’r Cwestiynau Llafar ar y Fewnrwyd (a Gwe’r Siambr)

**Cwestiynau i Tom Middlehurst, Ysgrifennydd y Cynulliad dros Addysg a Hyfforddiant ar ôl 16 oed** (15 munud)
Mae rhestr o’r Cwestiynau Llafar ar y Fewnrwyd (a Gwe’r Siambr)

**Cymeradwyo Rheoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Esemptiadau ar gyfer Pobl Anabl) (Cymru) 2000**

*Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn:*

(a) ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau ar y Gorchymyn drafft, Rheoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Esemptiadau ar gyfer Pobl Anabl)(Cymru) 2000 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mehefin 2000 a’r Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mehefin.

(b) cymeradwyo fod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â’r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Mai 2000 a’r Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mehefin

**Cymeradwyo Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000**

*Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn:*

(a) ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau ar y Gorchymyn drafft, Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mehefin 2000 a'r Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mehefin.

(b) cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Mai 2000 a'r Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mehefin

**Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Pwnc Addysg a Hyfforddiant ar ôl 16 oed**
Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheolau Sefydlog 6.5 a 9.9, yn nodi adroddiad cynnydd y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mehefin 2000

**Dadl ar Adeilad Newydd y Cynulliad**
Cynnig bod y Cynulliad, ar ôl ystyried y gwaith a wnaed gan swyddogion ac a ddisgrifir yn y ddogfen 'Gwybodaeth am Broject Adeilad Newydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mehefin, yn penderfynu mynd am Ddewis E fel y'i disgrifir yn y ddogfen honno

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**
Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion dadl (1+4) (2+3) (5)

**Gwelliant 1 - Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);**Dileu popeth ar ôl y geiriau "Cynnig," a rhoi yn eu lle "nad yw'r Cynulliad, o ystyried materion yn ymwneud â gofynion caffael, diffyg manylion ynglyn â chostau, anawsterau ymarferol a rhwymedigaethau cytundebol mewn perthynas â safle 1E, yn rhoi unrhyw ystyriaeth i gynnig anghyfrifol a sinigaidd y Cabinet i adeiladu dros faes parcio'r cwrt."

**Gwelliant 2 - Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**Dileu popeth ar ôl "penderfynu" a rhoi yn ei le "mabwysiadu Dewis A fel y'i disgrifir yn y ddogfen honno".

**Gwelliant 3 - Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**Dileu popeth ar ôl "penderfynu" a rhoi yn ei le "parhau i symud ymlaen â Dewis B fel y'i disgrifir yn y ddogfen honno".

**Gwelliant 4 - Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);**Dileu popeth ar ôl y gair "penderfynu" a rhoi yn ei le "peidio â symud ymlaen ag unrhyw adeilad newydd".

**Gwelliant 5 - Owen John Thomas (Canol De Cymru);**Mewnosod 'Cenedlaethol' ar ôl y geiriau 'y Cynulliad'. Dileu'r holl eiriau sy'n dilyn '… Ddewis E' a mewnosod 'er gwaetha'i ddiffygion amlwg'.

**Dadl Fer:** (i ddechrau erbyn 5pm)
**Janet Davies (Gorllewin De Cymru); Adeiladu Argaeau a Chymunedau Lleol**

**Bydd y cyfarfod yn dod i ben am 5.30pm**

**************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad**

**am 2.00pm ddydd Mawrth, 27 Mehefin 2000**

**J W Lloyd**

**Clerc y Cynulliad**